CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
A GYNHALIWYD AR 22 CHWEFROR 2017

Y Maer, y Cyngh Wyn Thomas, fu'n cadeirio'r cyfarfod misol o Gyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher yr 22ain o Chwefror 2017 am 7.30 pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Dorothy Bere, Parchedig Tom Defis, Dr. Dewi Evans, Dr. Baba Gana, Philip Grice, Peter Hughes Griffiths, Anthony Jenkins, Angharad Jones Leefe, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Kenneth Lloyd, Alan Speake a Wyn Thomas.

474. CYFLWYNIAD GAN MR STUART OWEN YNGLŶN Â'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG YN "JOLLY TAR"

Rhoddwyd cyflwyniad ar ymgynghori cyn-ymgeisio am ganiatâd cynllunio gan Mr Stuart Owen ar y gwaith arfaethedig o ddatblygu'r Jolly Tar, Y Cei, Caerfyrddin.

475. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Dr Richard Edwards, Dr Ioan Matthews, Emlyn Schiavone, Barry Williams a Douglas Rose.

476. DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cyngh Phil Grice bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 1 ar yr agenda fel cyfaill agos i'r Datblygwr a Chadeirydd Cymdeithas Glan-yr-afon.

Dywedodd y Cyngh Angharad Jones Leefe bod ganddi fuddiant yn eitem rhif 1 ar yr agenda fel y Swyddog Grantiau i'r datblygiad blaenorol.

477. CWESTIYNAU

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

478. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2017

Cynigiwyd gan y Cyngh Phil Grice, eiliwyd gan y Cyngh Dorothy Bere, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain o Ionawr 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir.

479. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

480. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL A GYNHALIWYD AR 14 CHWEFROR 2017.

Cynigiwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Dorothy Bere, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 14eg o Chwefror 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir. Roedd pawb yn gytûn.

481. MATERION YN CODI

Cynigiwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Alan Speake, a **PHENDERFYNWYD** derbyn y cynigion canlynol:

(a) Cofnod 452: Trosglwyddo Prydlesi – Llefydd Chwarae ym Maes y Wennol, Heol Pentre Meurig ac Allt Ioan, Tre Ioan,

bod y Cyngor yn cyflogi cwmni o gyfreithwyr i weithredu ar ran y Cyngor ynglŷn â'r mater uchod a hefyd materion eraill oedd yn dal heb eu datrys.

(b) Plannu Blodau yng Nghanol y Dref 2017 – Basgedi Rheiliau a Thyrrau Blodau.

bod y Cyngor yn prynu saith basged rheiliau a dau dŵr blodau.

(c) Dyddiadau Digwyddiadau'r Nadolig 2017.

bod dyddiadau digwyddiadau'r Nadolig eleni fel a ganlyn: Goleuo'r Goleuadau Nadolig nos Wener 24 Tachwedd, Gorymdaith y Ceirw ddydd Sadwrn 25 Tachwedd, a Groto Siôn Corn yn Neuadd Ddinesig San Pedr ddydd Sadwrn 25 Tachwedd 2017.

482. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR CYLLID A GYNHALIWYD AR 16 CHWEFROR 2017

Cynigiwyd gan y Cyngh Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Anthony Jenkins, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar yr 16eg o Chwefror 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir. Roedd pawb yn gytûn.

483. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 463: Talu'r Anfoneb am Oleuadau Stryd

Yn dilyn cyngor gan Glerc y Dref cynigiwyd gan y Cyngh Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Philip Grice a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn talu'r anfoneb am oleuadau stryd am y flwyddyn 2016/17 a bod y mater hwn yn cael ei godi yng nghyfarfod mis Mai 2017 (11 o blaid, 2 yn atal eu pleidlais).

Cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Dorothy Bere, a **PHENDERFYNWYD** derbyn y cynigion canlynol:-

(b) Cofnod 467: 2017/18 Cyllideb Derfynol

bod y cyfraniad i'r Neuadd Sirol yn cael ei ostwng i £7,000.00 a bod y cyfraniad i Dr M'z yn parhau ar £5,000.00.

(c) Cofnod 468: Adolygu'r Taliadau a Godir am Gladdu yn y Fynwent

Cyflwynwyd cynnig diwygiedig gerbron y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd gan y Cyngh Dr Dewi Evans, eiliwyd gan y Cyngh Ken Lloyd, a **PHENDERFYNWYD**:

(i) Peidio â chodi tâl am lain gladdu'r teulu pan fydd plentyn yn cael ei gladdu (dan 16 oed) a bod y Cyngor, ar dderbyn cais am gladdu, yn sicrhau bod y trefnydd angladdau a'r teulu yn cael gwybod am elusennau all roi cymorth gyda chostau angladd plentyn yn ogystal â'r cymorth ariannol a gynigir gan lywodraeth y DU i deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau.

(ii) Cynyddu'r taliadau a godir am gladdu yn y fynwent o 2.5% (i'w dalgrynnu i'r bunt agosaf) yn 2017/18.

Cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Dorothy Bere, a **PHENDERFYNWYD** derbyn y cynigion canlynol.

(d) Cofnod 469: Adolygu'r Taliadau a Godir am Ddefnyddio Neuadd Ddinesig San Pedr

cynyddu'r taliadau a godir am ddefnyddio'r neuadd o 2.5% (i'w dalgrynnu i'r bunt agosaf) yn 2017/18.

(e) Cofnod 470: Adolygu'r Taliadau a Godir am Fasgedi Crog

bod y tâl a godir am hurio basged grog yn parhau yr un fath yn 2017/18.

(f) Cofnod 471: Adolygu'r Taliadau a Godir am Hurio Parc

cynyddu'r taliadau a godir am hurio parc o 2.5% (i'w dalgrynnu i'r bunt agosaf) yn 2017/18.

(g) Cofnod 472: Rheoliadau Ariannol – Adolygu

mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig drafft fel y'u cyflwynwyd.

484. MATERION CYNLLUNIO: CEISIADAU CYNLLUNIO CYFREDOL

Nid oedd unrhyw gais cynllunio wedi dod i law.

485. MATERION PRIFFYRDD

Nid oedd unrhyw fater priffyrdd wedi dod i law.

486. MATERION TRWYDDEDU

Nid oedd unrhyw fater trwyddedu wedi dod i law.

487. PWYLLGOR STRATEGOL “YR ATOM”

Cynigiwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyngh Tom Defis, a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyngh Angharad Jones Leefe yn cynrychioli’r Cyngor ar bwyllgor strategol “Yr Atom”

488. DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

489. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD GAN GLERC Y DREF

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

490. ADRODDIAD Y MAER

Roedd rhestr o’r digwyddiadau y bu’r Maer, y Cyngh Wyn Thomas, yn bresennol ynddynt, wedi’i dosbarthu fel Atodiad 3 i’r agenda.

491. ADRODDIAD GAN Y CYNGH KEN LLOYD AR BWYLLGOR ARDAL CAERFYRDDIN O UN LLAIS CYMRU, 8 CHWEFROR 2017

Cyflwynodd y Cyngh Ken Lloyd adroddiad ar y cyfarfod a hefyd ar gyfarfod y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yr oedd wedi’i fynychu gyda Chlerc y Dref.

NODWYD yr adroddiadau.

492. ADRODDIADAU GAN GYNGHORWYR FEL CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Dywedodd y Cyngh Anthony Jenkins ei fod wedi mynychu cyfarfod yn Ysgol Gynradd Myrddin ac mai Mrs. Helen Smith bellach yw Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr nid efe, a bod y Cyngh Emlyn Shiavone wedi’i ethol yn Is-gadeirydd. Hefyd dywedodd na fyddai’n sefyll eto yn yr etholiad Cyngor Tref nesaf.

Atgoffodd y Cyngh Tom Defis fel Cadeirydd Pwyllgor Sian Johnson a Masnach Deg y cynhelir Bore Coffi yng Nghapel Westfa fore’r 8fed o Fawrth 2017. Ychwanegodd ei fod hefyd wedi mynychu cyfarfod Gwenyn Gyfeillgar.

Roedd y Cyngh Emlyn Schiavone wedi cyflwyno diweddariad ysgrifenedig cyn y cyfarfod o’r digwyddiadau yr oedd wedi’u mynychu yn ystod y mis blaenorol. Roedd wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Dr M’z, is-bwyllgor Ysgol Waun Dew ar y cwricwlwm a staffio, a chyfarfod o Tŷ Hapus a Tŷ Ni gyda CAFCAS.

493. EITHRIO’R CYHOEDD A’R WASG

Cynigiwyd gan y Cyngh Dr Richard Edwards, a eiliwyd gan y Cyngh Angharad Jones Leefe, a **PHENDERFYNWYD** yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 bod y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod.

494. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD O'R PWYLLGOR RHEOLI A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2017

Cynigiwyd gan y Cyngh Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyngh Angharad Jones Leefe, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli a gynhaliwyd ar y 25ain o Ionawr 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir.

495. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

Atgoffwyd pawb gan y Maer am yr Orymdaith Dydd Gŵyl Ddewi ddydd Sadwrn y 25ain o Chwefror 2017, fydd yn gadael Parc Caerfyrddin am 10.30am.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.09 pm.